NHS
Asiantaeth Genedlaethol
Diogelwch Cleifion

ADRODDIAD BLYNYDDOL CRYNO

2006/07

Rhoi Blaenoriaeth i Ddiogelwch Cleifion

RHAGAIR

Mae'r crynodeb hwn o'n adroddiad blynyddol yn rhoi darlun clir o'r gwaith a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'n ymroddiad o'r newydd i roi blaenoriaeth i ddiogelwch cleifion mewn gofal iechyd. Er bod gennym gryn dipyn o ffordd i fynd eto, cafodd y cynlluniau niferus a roddwyd ar waith dderbyniad cadarnhaol gan y GIG.

Rydym wedi parhau i gynnig gwasanaeth cynghori a chynnal ardderchog i sefydliadau gofal iechyd drwy gyfrwng ein Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol. Rydym hefyd wedi ail-lansio ein Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol, gan barhau i weithio er mwyn gofalu bod cyfranogwyr mewn gwaith ymchwil yn cael eu hamddiffyn.

Rydym wedi cychwyn prosiectau cynhyrfus newydd ym maes diogelwch cleifion fel rhan o'n ymateb i adroddiad y Prif Swyddog Meddygol ar ddiogelwch cleifion, *Safety First*.

Cynhaliwyd uwchgynhadledd ar Ddiogelwch Cleifion yn niwedd y flwyddyn ddaeth â thros 25 o sefydliadau gofal iechyd allweddol at ei gilydd, a lofnododd siarter ynglŷn â gwella diogelwch cleifion. Roedd hyn yn ddechrau dull newydd o gydweithio. Daw'r dull mwy cydweithredol hwn o sicrhau diogelwch cleifion â buddiannau yn y dyfodol. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r sefydliadau gofal iechyd eraill, ac i'n staff, am eu hymroddiad, ac am y cynnydd a welwyd eleni.

Naren Patel

Martin Fletcher

Yr Arglwydd Naren Patel o Dunkeld
Cadeirydd

Martin Fletcher
Prif Weithredwr

GYDA'N GILYDD

GWEITHIO

AGWEDD GYFANNOL

ADOLYGU'R FLWYDDYN

Dyma'r ail flwyddyn o ymdrin â diogelwch cleifion mewn dull mwy cyfannol, gyda'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol wedi'u gwreiddio o fewn yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

Hefyd, mae'r Asiantaeth yn parhau â'i gwaith o gomisiynu a monitro'r tri Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Iechyd Mamau a Phlant, Deilliant a Marwolaeth Cleifion, a Hunanladdiad a Dynladdiad gan bobl ag afiechyd meddwl. Rhoddodd hyn fandad eang i'r Asiantaeth hybu ac amlygu'r budd o gydweithredu mwy ar agenda diogelwch cleifion o fewn y GIG.

Rhoddodd rhyddhau *Safety First* batrwm penodol ar gyfer symud ymlaen oedd â chylch gorchwyl ehangach nag o'r blaen. Symudodd yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ymlaen yn gyflym i ymdrin â'r posibiliadau o fewn prosiectau penodol y gellid eu datblygu mewn partneriaeth gyda'r colegau brenhinol, sefydliadau addysgol a chyrff iechyd cenedlaethol eraill.

Un o'n prif dasgau eleni fu adolygu'n System Gofnodi a Dysgu Genedlaethol. Ein bwriad ydy datblygu proses fydd yn well am gynnwys ein staff rheng flaen, yn gyflymach yn cofnodi digwyddiadau lleol, ac yn ymateb i'r ymddiriedolaethau'n gyflymach. Mae'n ymchwil hyd yn hyn wedi dangos nad ydym wedi trafod yn ddigonol gyda sefydliadau gofal iechyd lleol, ac nad ydy pawb yn deall y cyswllt rhwng cofnodi digwyddiadau lleol a'r dadansoddiad cenedlaethol o ddigwyddiadau a'r ymateb iddynt.

Bydd deall y broses, a dysgu o ddigwyddiadau, yn ganolog i wella diogelwch cleifion. Rydym wedi cadw mewn cysylltiad agos gyda'n noddwyr o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Iechyd er mwyn sicrhau fod cyfathrebu effeithiol yn digwydd.

SYMBYLU

GWEITHIO'N FWY DIOGEL

Cofnodi a dysgu gwell

Yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007, cofnodwyd 1.4 miliwn o ddigwyddiadau gan y GIG drwy gyfrwng y System Gofnodi a Dysgu Genedlaethol. Daeth tri-chwarter o'r rhain o ysbytai.

Erbyn hyn, mae pob un o'r sefydliadau sy'n adrodd yn ôl i ni yn gallu adolygu'u data a chymharu eu hunain gyda sefydliadau tebyg o fewn y GIG.

Adroddiadau'r Patient Safety Observatory

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd tri adroddiad gan y Patient Safety Observatory: *Slips, trips and falls in hospital; With safety in mind: mental health services and patient safety;* and *Safety in doses: medication safety incidents in the NHS.*

Moddion mwy diogel

Yn ystod mis Mawrth, rhyddhawyd rhaglen waith ymarfer meddyginiaethau diogel a gynhyrchwyd gennym ar y cyd â'r Adran Iechyd, a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd dderbyniad arbennig o dda ar draws y sector iechyd. Ceir pum rhybudd diogelwch cleifion o fewn y rhaglen, ac amrywiaeth eang o arfau ymarferol i gefnogi'r GIG wrth eu rhoi ar waith. Mae'r rhybuddion ynglŷn â: therapi gwrthgeulo; moddion hylifol; moddion pigiadwy; pigiadau epidwral ac arllwysiadau; ac arllwysiadau i blant.

Hylendid dwylo

Mae'r ymgyrch clean**your**hands, a anelwyd at wella hylendid dwylo, wedi gorffen ei hail flwyddyn ar nodyn llwyddiannus, gan fod pob ysbyty acíwt wedi arwyddo i'w dilyn. Dangosodd gwerthusiad o'r ymgyrch fod alcohol golchi dwylo ar gael mewn 75 y cant o wardiau ysbytai, a bod posteri i fyny yn wardiau 90 y cant o ysbytai. Chwyddodd y defnydd o alcohol golchi dwylo bedair gwaith ar ddeg mewn dwy flynedd yn unig.

Dechreuwyd hefyd ar y gwaith o ymestyn yr ymgyrch hon i'r sector anacíwt, a disgwylir cynllun peilot yn y flwyddyn ariannol newydd.

DIOGELWCH

RISG

LLEIHAU

GWEITHIO'N FWY DIOGEL

Ysbytai glanach

Lansiwyd system cod lliwiau ar gyfer deunyddiau glanhau eleni er mwyn helpu ysbytai leihau'r risg o drawsheintiad.

Pryd yn ei bryd

Rydyn ni'n gweithio gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys a'r Council of Europe Alliance i hyrwyddo amseroedd bwyd wedi'u gwarchod. Tua diwedd y flwyddyn ddiwethaf cafwyd adolygiad o'r cynllun ymhlith staff ar wardiau er mwyn adnabod rhwystrau ac enghreifftiau o arfer da. Mae canfyddiadau'r adolygiad i'w gweld ar ein gwefan.

Hwyluso asesu risg

Eleni, cyhoeddwyd canllawiau ar adnabod a lleihau risg o fewn gofal iechyd. Mae'r canllawiau ar gyfer staff rheng flaen, a'u bwriad ydy gwella cysondeb wrth asesu risg.

CEFNOGI

GWASANAETH

GWASANAETH ASESU CLINIGOL CENEDLAETHOL

Ataliadau

Cafwyd lleihad pellach yn y nifer o ataliadau yng Nghymru a Lloegr eleni. Yn ystod 2006/07, roedd 69 o waharddiadau ymysg staff meddygol a deintyddol cyflogedig, o'i gymharu â 96 y flwyddyn flaenorol.

Cafodd ein gwaith gefnogaeth yn fframwaith Maintaining High Professional Standards, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr y GIG drafod gyda ni cyn gwahardd meddyg neu ddeintydd.

Back on Track

Cafodd yr adroddiad *Back on Track* ei lansio ym mis Hydref. Rhaglen dros ddwy flynedd ydy hon i greu fframwaith ar gyfer adfer meddygon a deintyddion yn ôl i ymarfer proffesiynol diogel yn dilyn mynegiant o bryder am eu gwaith.

Mae'r Gwasanaeth wedi dechrau datblygu arfau monitro i fesur cynnydd rhaglen sy'n paratoi ymarferwr ar gyfer dychwelyd i waith yn dilyn gwaharddiad.

Cyfeirio cynt

Cysylltwyd â ni am gyngor ynglŷn â 691 o achosion eleni. Cafodd mwy na hanner y rhain (56 y cant) eu cau yn ystod y cyfnod cynghori, tra roedd y 44 y cant oedd yn weddill angen cefnogaeth bellach i'r sefydliad neu asesiad o'r ymarferwr.

Aseswyr newydd

Llwyddwyd i recriwtio a hyfforddi 18 o aseswyr arbenigol ychwanegol eleni. Mae eu meysydd yn cynnwys: meddygaeth teulu; seiciatreg plant a'r arddegau; llawfeddygaeth y genau a'r wyneb; a deintyddiaeth adferol.

Cynhyrchwyd nifer o ganllawiau newydd neu ddiwygiedig i sicrhau fod ein gwaith achos yn effeithlon a chyson.



RHANNU PROFIAD

GWASANAETH ASESU CLINIGOL CENEDLAETHOL

Trin pryder am feddygon teulu

Ym mis Mawrth rhyddhawyd canllawiau gennym i helpu ymddiriedolaethau gofal iechyd ddatblygu fframwaith ar gyfer trin pryderon am feddygon teulu. Cynhyrchwyd y canllawiau yn ymateb i ad-drefnu ymddiriedolaethau gofal iechyd yn ddiweddar, roddodd gyfle i adolygu ymarfer lleol.

Rhannu profiadau

Eleni, cawsom ddadansoddiad manwl o'r data a gafwyd o achosion a gyfeiriwyd atom yn ystod ein pedair blynedd gyntaf o weithredu. Hefyd, comisiynwyd prosiect i gael adborth gan ymarferwyr yr oedd eu gwaith wedi'i asesu, ac fe gafwyd dadansoddiad pellach o 120 o asesiadau ymddygiad.

Trust, Assurance and Safety

Yn ystod Chwefror 2007, cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar reolaeth broffesiynol, *Trust, Assurance and Safety*. Bydd hwn yn effeithio ar ein gwaith yn y dyfodol, ac rydym yn edrych ymlaen at chwarae rhan yn y rhaglen ddiwygio arfaethedig.

GADARNHAOL

GWASANAETH MOESEG YMCHWIL CENEDLAETHOL

Yn ystod y flwyddyn llwyddodd y Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol (y National Research Ethics Service o'r blaen) i gyflwyno agenda sylweddol o welliannau a thwf.

Ail-lansio'r gwasanaeth

Ym mis Mawrth, cafodd y gwasanaeth ei ail-lansio dan enw newydd, oedd yn gyfle i ddathlu ein llwyddiannau, ein gwelliannau a'n effeithlonrwydd, yn ogystal â chydnabod agwedd gadarnhaol staff a gwirfoddolwyr yng nghymuned ehangach y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

Gwella drwy gydweithio

Buom yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid ar amryfal faterion yn ystod y flwyddyn. Roeddent yn cynnwys uwchraddio trefniadaeth llawdriniaethau safonol er mwyn cyfarfod â gweithrediad Deddf Cnodwe Dynol 2004, canllawiau newydd ar adolygiad moesegol dyfeisiadau meddygol, a Memorandwm Dealltwriaeth gyda'r Medicines and Healthcare products Regulatory Agency a'r Gene Therapy Advisory Committee er mwyn hwyluso cyfathrebu, a thrafod argymellion yn dilyn ymholiadau i dreial TGN1412.

Sicrwydd ansawdd

Dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu fframwaith sicrwydd ansawdd, gan adeiladu ar y cynllun achredu presennol er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Pwyllgorau Moeseg Ymchwil. Mae'r gwaith hwn wedi'i atgyfnerthu drwy leihau'r nifer o bwyllgorau, a sefydlu canolfannau i roi cefnogaeth weinyddol - lleihau costau a biwrocratiaeth.

Hyfforddiant a dysgu

Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd system gofnodi ffurfiol ar gyfer hyfforddiant sy'n cael ei wneud yn lleol. Mae'r rhaglen hyfforddi, gan gynnwys cyfres o sioeau teithiol, ynghlwm wrth drefn o gyfeirio at bwyllgorau fel bod modd dyrannu'r ceisiadau i'r pwyllgor sydd â'r arbenigedd a'r hyfforddiant mwyaf addas i'r pwnc ymchwil dan sylw.

LLES

AMDDIFFYN

GWASANAETH MOESEG YMCHWIL CENEDLAETHOL

Penderfyniadau cynt

Ar gyfartaledd, cymerodd pwyllgorau 40 diwrnod i ddod i benderfyniadau eleni - sy'n gyfforddus o fewn y 60 diwrnod sy'n cael ei ganiatáu gan y Clinical Trials Directive. Rydym hefyd wedi gwella'n cyfathrebu, gyda'r llinell ymholiadau drwy e-bost yn ymateb i 450 ymholiad y mis ar gyfartaledd, a 95 y cant o atebion wedi'u hanfon o fewn tri diwrnod.

Gwell gwybodaeth i gleifion

Rhan allweddol o bob cymhwysiad ydy'r daflen wybodaeth sy'n sicrhau bod cleifion yn deall goblygiadau cymryd rhan mewn astudiaeth. Datblygwyd canllawiau ar baratoi'r rhain eleni, a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd.

Gosodwyd seiliau cadarn ar gyfer gwelliannau eleni, ac rydym yn edrych ymlaen at roi cefnogaeth gyson i adolygiadau moesegol sy'n gryf, amserol a chymesur er mwyn hwyluso ymchwil moesegol yn y Deyrnas Gyfunol.

EIN STAFF

Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol	84
Gweithio'n Fwy Diogel	50
Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol	22
Cyllid/TG/Adnoddau	28
Epidemioleg ac Ymchwil	24
Cyfathrebu	15
Swyddfa'r Prif Weithredwr (gan gynnwys Adnoddau Dynol)	10
Cyfarwyddwyr Anweithredol	8
Cyfanswm	241

Asiantaeth Genedlaethol
Diogelwch Cleifion
4-8 Maple Street
Llundain
W1T 5HD
Ffôn: **020 7927 9500**
Ffacs: **020 7927 9501**

www.npsa.nhs.uk
E-bost: **info@npsa.nhs.uk**

Cewch y cyhoeddiad hwn hefyd ar lein ar:
www.npsa.nhs.uk

© Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion 2007. Mae'r hawlfraint ac unrhyw eiddo deallusol arall sy'n gysylltiedig â'r deunydd hwn yn perthyn i Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, a chedwir pob hawl. Mae'r Asiantaeth yn rhoi awdurdod i sefydliadau gofal iechyd atgynhyrchu'r deunydd hwn i bwrpas addysgol ac anfasnachol.

Cyf: 0580